# Hawlio Heddwch/ Women's Peace Petition Community Outreach Officer: north Wales

## JOB DESCRIPTION

| | |
|---|---|
| **Employed by:** | Welsh Centre for International Affairs (WCIA) |
| **Responsible to:** | Women's Peace Petition Project Manager |
| **Salary & Pension:** | Band C – starting from £26.489 (pro rata) |
| | Automatic enrolment into our pension scheme and the WCIA will match your contribution up to a maximum of 5% of your gross salary (minimum 4%). |
| **Employment terms:** | This is a part-time (0.5FTE), fixed term position for 1 year – starting in September 2023. There will be a 3 month probationary period. |
| **Base:** | This role is home based, for someone based in north Wales. |
| **Hours:** | 18.5 hours per week (we operate a flexible working policy).<br>Please note that this role will require out-of-hours working, including weekends. |
| **Annual leave:** | 18 days (including bank holidays) |
| **Travel:** | This role requires travel throughout Wales, including overnight stays. Use of public transport is preferred; when this is not convenient staff may use their own vehicle. The current mileage rate is 45p. |

*The Welsh Centre for International Affairs values diversity, promotes equality and challenges discrimination. We welcome and encourage applications from people of all backgrounds.*

## About Academi Heddwch Cymru

Academi Heddwch's aim is to extend Wales' strong tradition of peace-making and peace-promotion, by developing and coordinating an independent **community of researchers** in related fields.

Funded by the Welsh Government, Academi Heddwch works to **place peace firmly on Wales' national agenda,** as well as on the **international stage** through working with an existing global network of peace institutes.

The overall aims of Academi Heddwch are to ensure that:

- Wales makes an internationally recognised contribution to peace research and practice.
- a focus on peace is seen in relevant Welsh Government strategies and policies.
- there is strong public engagement with peace research and practice in Wales

Academi Heddwch Cymru is hosted by the Welsh Centre for International Affairs (WCIA). WCIA is a charity that inspires people in Wales to learn about and taken action on global issues. WCIA's vision is that everyone in Wales contributes to creating a fairer and more peaceful world.

## Hawlio Heddwch/ Women's Peace Petition Project:

In 1923, the women of Wales organised an unprecedented campaign for world peace. A total of 390,296 women signed what was known as a 'memorial petition' through the Welsh League of Nations Union calling for America to join and lead the new League of Nations. The petition was transported to America in an oak chest and the Peace Declaration presented to the women of America by a delegation of Welsh women led by Annie Jane Hughes-Griffiths.

Over the past 18 months, a partnership of organisations, the Women's Peace Petition Partnership, have been planning the Hawlio Heddwch/ Women's Peace Petition Project to mark the centenary of the Women's Peace Petition in 2023-24 and to celebrate Wales' women peacemakers. The Project will reunite the Memorial, chest and petition signatures in Wales for the centenary, so that the original Peace Appeal can inspire a new generation of Welsh internationalists, promoting peace locally, nationally and internationally, and establishing new connections between Wales and North America.

The National Museum of American History has completed a process to deaccession the chest & its contents to the care and ownership of the National Library of Wales/Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Funding has been secured from Welsh Government for the transportation, conservation, cataloguing, digitisation and transcription of the petition. The project management, community outreach and engagement elements of the project are funded by the National Lottery Heritage Fund.

Through Academi Heddwch Cymru as co-ordinating partner, WCIA has agreed to host the Women's Peace Petition Project on behalf of the Partnership which includes:

---

- Academi Heddwch Cymru (co-ordinating partner)
- Welsh Centre for International Affairs (WCIA)
- Heddwch Nain Mam-gu
- Archif Menywod Cymru/ Women's Archive Wales
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru / The National Library of Wales

- Amgueddfa Cymru/National Museum Wales
- Senedd
- Welsh Government
- Universities
- National Museum of American History, Smithsonian Institution

## Summary of Community Outreach Officer role:

The four Community Outreach Officers (one based in each of four geographical areas of Wales) will work closely with partners, communities and others in their area to raise awareness of the 1923-24 Women's Peace Petition and to hold a dialogue on how to create a more peaceful world today. Outreach Officers will motivate local people from diverse communities to take part in the project and ensure all participants have a rich and rewarding experience.

Outreach Officers will support organisations and individuals to participate in the project through a range of activities including organising community events and workshops, working with Heddwch Nain Mamgu and Archif Menywod Cymru/ Women's Archive Wales to showcase the project and developing local partnerships. Partnerships will include schools, colleges, community groups, libraries and local archives. Outreach Officers will also support local volunteers and organisations to deliver activities to celebrate and research local signatories of the petition and to get involved with transcription efforts.

Outreach Officers will work with communities to ensure local hidden histories are captured as part of the national archive to build and safeguard knowledge around the women that signed the petition. Outreach Officers will use inspiration from the project to facilitate discussions with participants as part of a national dialogue on what peace means today and how Wales can develop as a Nation of Peace.

Finally, they will be required to monitor and evaluate their work as the project progresses.

## Specific responsibilities for this role will include:

1. Facilitating and working with volunteers from Archif Menywod Cymru/ Women's Archive Wales, Heddwch Nain Mam-gu and others to draw into the project the knowledge and passions of members of these organisations.

2. Developing strong working relationships with individuals and organisations in a range of local communities in north Wales, so that community focused aspects of the project are delivered effectively. This includes developing relationships with local libraries and archives services.

3. Inspiring people, especially those who are new to Welsh history and those who do not necessarily have a global perspective, to become actively engaged in the history of the Peace Petition of 1923-24 and introducing dialogue about what peace means today.

4. Working with the staff team to promote the project as a volunteering opportunity and support volunteers in collaboration with WCIA Volunteer Team, Project Manager and partners. This includes ensuring volunteers contribute to transcription efforts via the Llyfrgell Genedlaethol Cymru / The National Library of Wales transcription interface.

5. Providing connections and sign posting to the wider peace movement and other relevant organisations to enable people interested in taking action to support peace to do so.

6. Organising at least 6 events / workshops with different community groups in their area in suitable venues with follow up activities

7. Organising and working with tutors to lead the workshops in each venue; (i) the historical and archival aspects through Archif Menywod Cymru/ Women's Archive Wales(ii) the elements of discussion and artistic events through Heddwch Nain/Mam-gu. The Officer would be expected to organise and attend the sessions and to facilitate them in a practical way.

8. Engaging with educational institutions (primary, secondary and higher) in their area and organising workshops in at least 5 such institutions regarding the history, and dialogue about peace today.

9. Ensuring the sustainability of the material gathered through the events /workshops; to be displayed in exhibitions at ongoing events, archived in a relevant archive at the end of the project to be safeguarded for the future.

10. Marketing and reporting upon the sessions widely and effectively to the general public through social media, websites, newspapers etc. and in particular to target groups and people who do not already have an interest or knowledge of Welsh history or of the peace movement.

11. Working as part of the project team & reporting back to the Project Manager to ensure a cohesive project and sharing good practice across the Outreach team to further improve the project.

12. Conducting monitoring, evaluation and reporting for activities and sharing results with the Project Manager and the project team.

13. Managing the flexible community outreach budget for their area to remove barriers to accessing the project & provide resources to local community partners.

14. Working within the project budget and spending funds responsibly.

15. Using participatory approaches to involve a diverse range of people in the project, including women and girls, people experiencing socio-economic inequalities, people from black, Asian and minority ethnic groups and ethnic minority women

16. Supporting the development of local project exhibitions, ensuring there are appropriate learning outcomes for different audiences.

17. Delivering all activities in line with the WCIA's policies and procedures, representing the WCIA and the project, and reflecting our core values in all your work.

18. Undertaking administrative work to support the above activities, with the support of the Project Admin & Finance Officer.

19. Undertaking occasional other duties where delegated by the Project Manager.

## Person specification

### Essential

- ✓ Experience in community-based project work, working with volunteers and a natural flair for motivating and supporting people from a diverse range of backgrounds.
- ✓ Proven ability to develop partnerships with a range of organisations.
- ✓ Experience of delivering or facilitating community events or development sessions in a supportive, participatory way.
- ✓ Excellent written and spoken communication skills, including the ability to communicate about the project to a wide range of audiences.
- ✓ An interest in and understanding of the project's themes and to be inspired by the project.
- ✓ Ability to work cooperatively and productively with team members, openly exchanging information and supporting colleagues.
- ✓ Ability to take a learning approach to continually improve project delivery.
- ✓ Creative and critical thinking skills to solve problems, take advantage of opportunities and contribute overall to project development.
- ✓ Uses initiative to make decisions about day-to-day tasks for self and project participants.
- ✓ Experience of managing small budgets.
- ✓ Good IT skills, especially with Microsoft Office software.
- ✓ Experiences of marketing events and use of social media platforms.
- ✓ The ability to communicate fluently in both Welsh and English is essential for **at least two** of the 4 Community Outreach Officers.

### Desirable

- ✓ Experience working with community-based volunteers.
- ✓ Experience of working on a heritage project.
- ✓ An awareness of Welsh history and/or the peace movement in Wales.

# Hawlio Heddwch / Deiseb Heddwch y Menywod
# Swyddog Allgymorth Cymunedol: y Gogledd

**SWYDD DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Cyflogir gan:** | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) |
| **Yn atebol i:** | Rheolwr Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod |
| **Cyflog a Phensiwn:** | Band C – gan ddechrau ar £26.489 (pro rata)<br><br>Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig ar ein cynllun pensiwn a bydd y WCIA yn rhoi cyfraniad cyfatebol i'ch cyfraniad chi, hyd at 5% o'ch cyflog gros (4% fan leiaf). |
| **Telerau cyflogaeth:** | Mae hon yn swydd ran-amser (0.5FTE), cyfnod penodol am 1 flwyddyn - gan ddechrau ym mis Medi 2023. Bydd cyfnod prawf o 3 mis. |
| **Lleoliad:** | Mae'r swydd hon yn swydd dweithio o adre, ar gyfer rhywun sydd yn byw yng ngogledd Cymru. |
| **Oriau:** | 18.5 awr yr wythnos (rydym yn gweithredu polisi gweithio hyblyg). Sylwch y bydd y swydd hon yn gofyn am weithio y tu allan i oriau, gan gynnwys ar benwythnosau. |
| **Gwyliau blynyddol:** | 18 diwrnod (gan gynnwys gwyliau banc) |
| **Teithio:** | Bydd angen teithio ledled Cymru, gan gynnwys aros dros nos. Ffafrir trafnidiaeth gyhoeddus; pan na fydd hynny'n hwylus, caiff staff ddefnyddio'u cerbyd eu hunain. Y gyfradd gyfredol yw 45c y filltir. |

*Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn gweld gwerth mewn amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu. Rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir.*

## Cefndir Academi Heddwch Cymru

Nod yr Academi Heddwch yw ymestyn y traddodiad cryf a geir yng Nghymru o ran creu a hyrwyddo heddwch, drwy ddatblygu a chydgysylltu **cymuned annibynnol o ymchwilwyr** mewn meysydd cysylltiedig.

Caiff yr Academi Heddwch ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio er mwyn **sicrhau y caiff heddwch le blaenllaw ar agenda genedlaethol Cymru,** yn ogystal ag ar y **llwyfan rhyngwladol**. Gwna hyn drwy weithio gyda rhwydwaith byd-eang o sefydliadau heddwch.

Nodau cyffredinol yr Academi Heddwch yw:

- sicrhau bod Cymru'n gwneud cyfraniad a gydnabyddir yn rhyngwladol at ymchwil ac ymarfer heddwch
- sicrhau bod canolbwyntio ar heddwch yn elfen amlwg yn strategaethau a pholisïau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- sicrhau bod ymgysylltiad cyhoeddus cryf ag ymchwil ac ymarfer heddwch yng Nghymru.

Cynhelir Academi Heddwch Cymru gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA). Elusen yw'r WCIA, ac mae'n ysbrydoli pobl yng Nghymru i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu er eu budd. Gweledigaeth y WCIA yw gweld pawb yng Nghymru yn cyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

## Hawlio Heddwch / Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod:

Ym 1923, trefnodd menywod Cymru ymgyrch dros heddwch byd-eang – ymgyrch na welwyd mo'i thebyg erioed o'r blaen. Llofnododd 390,296 o fenywod yr hyn a elwid yn 'ddeiseb goffa' drwy Undeb Cynghrair y Cenhedloedd Cymru, yn galw ar America i ymuno â Chynghrair newydd y Cenhedloedd, a'i arwain. Cludwyd y ddeiseb i America mewn cist dderw a chyflwynwyd y Datganiad Heddwch i fenywod America gan ddirprwyaeth o fenywod o Gymru dan arweinyddiaeth Annie Jane Hughes-Griffiths.

Dros y 18 mis diwethaf, mae partneriaeth o sefydliadau, sef Partneriaeth Deiseb Heddwch y Menywod, wedi bod yn cynllunio Hawlio Heddwch / Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod i nodi canmlwyddiant Deiseb Heddwch y Menywod yn 2023-24 a dathlu heddychwragedd Cymru. Bydd y Prosiect yn aduno'r Ddeiseb Goffa, y gist a llofnodion y ddeiseb yng Nghymru ar gyfer y canmlwyddiant, er mwyn i'r Apêl Heddwch wreiddiol allu ysbrydoli cenhedlaeth newydd o gydwladolwyr; i hyrwyddo heddwch yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a chreu cysylltiadau newydd rhwng Cymru a Gogledd America.

Mae Amgueddfa Genedlaethol Hanes America wedi cwblhau proses ar gyfer trosglwyddo'r gist a'i chynnwys i ofal a pherchnogaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cafwyd arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cludo, gwarchod, catalogio, digideiddio a thrawsgrifio'r ddeiseb. Caiff yr elfennau sy'n ymwneud â rheoli'r prosiect, allgymorth cymunedol ac ymgysylltu eu hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Gydag Academi Heddwch Cymru yn gweithredu fel partner cydgysylltu, mae'r WCIA wedi cytuno i gynnal Prosiect Deiseb Heddwch y Menywod ar ran y Bartneriaeth, sy'n cynnwys:

- Academi Heddwch Cymru (partner cydgysylltu)
- Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)
- Heddwch Nain Mam-gu
- Archif Menywod Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Cymru
- Y Senedd
- Llywodraeth Cymru
- Prifysgolion
- Amgueddfa Genedlaethol Hanes America, Smithsonian Institution

## Crynodeb o swydd Swyddog Allgymorth Cymunedol:

Bydd y pedwar Swyddog Allgymorth Cymunedol (un wedi'i leoli ym mhob un o'r pedair ardal ddaearyddol yng Nghymru) yn cydweithio'n agos â phartneriaid, cymunedau ac eraill yn eu hardal i wella ymwybyddiaeth o Ddeiseb Heddwch y Menywod 1923-24 ac i drafod sut y gallwn greu byd mwy heddychlon heddiw. Bydd Swyddogion Allgymorth yn ysgogi pobl leol o gymunedau amrywiol i gymryd rhan yn y prosiect ac yn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cael profiad cyfoethog a boddhaus.

Bydd Swyddogion Allgymorth yn cynorthwyo sefydliadau ac unigolion i gymryd rhan yn y prosiect drwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys trefnu digwyddiadau a gweithdai cymunedol, gan weithio gyda Heddwch Nain Mamgu ac Archif Menywod Cymru i roi amlygrwydd i'r prosiect a datblygu partneriaethau lleol. Bydd y partneriaethau'n cynnwys ysgolion, colegau, grwpiau cymunedol, llyfrgelloedd ac archifau lleol. Bydd Swyddogion Allgymorth hefyd yn cynorthwyo sefydliadau a gwirfoddolwyr lleol i gynnal gweithgareddau i ddathlu ac ymchwilio i hanes y menywod lleol a lofnododd y ddeiseb, ac i gymryd rhan mewn gwaith trawsgrifio.

Bydd Swyddogion Allgymorth yn gweithio gyda chymunedau i sicrhau bod hanesion cudd lleol yn cael eu cofnodi fel rhan o'r archif genedlaethol, er mwyn casglu a gwarchod gwybodaeth ynghylch y menywod a lofnododd y ddeiseb. Bydd Swyddogion Allgymorth yn defnyddio ysbrydoliaeth o'r prosiect i hwyluso trafodaethau gyda chyfranogwyr fel rhan o ddeialog genedlaethol ar ystyr heddwch heddiw a sut y gall Cymru ddatblygu fel Cenedl Heddwch.

Yn olaf, bydd angen iddynt fonitro a gwerthuso eu gwaith wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

## Bydd cyfrifoldebau penodol y swydd hon yn cynnwys:

20. Hwyluso a gweithio gyda gwirfoddolwyr o Archif Menywod Cymru, Heddwch Nain Mam-gu a sefydliadau eraill fel bod y prosiect yn elwa o wybodaeth a brwdfrydedd aelodau'r sefydliadau hyn.

21. Datblygu perthynas waith gref gydag unigolion a sefydliadau mewn amrywiaeth o gymunedau lleol, er mwyn cyflawni agweddau cymunedol ar y prosiect yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys datblygu cysylltiadau gyda llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau lleol.

22. Ysbrydoli pobl, yn enwedig rhai y mae hanes Cymru yn newydd iddynt a rhai nad oes ganddynt, efallai, bersbectif byd-eang, i gymryd diddordeb gweithredol yn hanes Deiseb Heddwch 1923-24, a chyflwyno deialog ynghylch ystyr heddwch heddiw.

23. Cydweithio â'r tîm staff i hyrwyddo'r prosiect fel cyfle gwirfoddoli, a chefnogi gwirfoddolwyr ar y cyd â Thîm Gwirfoddolwyr WCIA, y Rheolwr Prosiect a phartneriaid. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cyfrannu at waith trawsgrifio drwy ryngwyneb trawsgrifio Llyfrgell Genedlaethol Cymru .

24. Darparu cysylltiadau a chyfeiriadau at y mudiad heddwch ehangach a sefydliadau eraill perthnasol, i alluogi pobl sy'n awyddus i weithredu i gefnogi heddwch i wneud hynny.

25. Trefnu o leiaf 6 digwyddiad / gweithdy gyda gwahanol grwpiau cymunedol yn eu hardal, mewn lleoliadau addas, gyda gweithgareddau dilynol.

26. Trefnu a gweithio gyda thiwtoriaid i arwain y gweithdai ym mhob lleoliad; (i) yr agweddau hanesyddol ac archifol drwy Archif Menywod Cymru(ii) yr elfennau trafod a digwyddiadau artistig drwy Heddwch Nain Mam-gu. Byddai disgwyl i'r Swyddog drefnu a mynychu'r sesiynau, a'u hwyluso mewn ffordd ymarferol.

27. Ymgysylltu â sefydliadau addysgol (cynradd, uwchradd ac uwch) yn eu hardal, a threfnu gweithdai mewn o leiaf 5 o sefydliadau o'r fath - yn ymwneud â'r hanes, a deialog ynghylch heddwch heddiw.

28. Sicrhau bod y deunydd a gesglir drwy'r digwyddiadau/gweithdai yn gynaliadwy; er mwyn eu cynnwys mewn arddangosfeydd mewn digwyddiadau sydd ar y gweill, a'u harchifo mewn archif berthnasol ar ddiwedd y prosiect er mwyn eu gwarchod ar gyfer y dyfodol.

29. Marchnata a rhoi adroddiadau ar y sesiynau yn eang ac yn effeithiol i'r cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, papurau newydd ac ati, yn enwedig i grwpiau targed a phobl nad oes ganddynt ddiddordeb eisoes yn hanes Cymru neu'r mudiad heddwch, na gwybodaeth ohonynt.

30. Gweithio fel rhan o dîm y prosiect ac adrodd yn ôl i'r Rheolwr Prosiect, er mwyn sicrhau bod y prosiect yn gydlynol a bod arferion da yn cael eu rhannu ar draws y tîm Allgymorth, er mwyn gwella'r prosiect ymhellach.

31. Cynnal gwaith monitro, gwerthuso ac adrodd yn ôl ar gyfer gweithgareddau, a rhannu canlyniadau gyda'r Rheolwr Prosiect a thîm y prosiect.

32. Rheoli'r gyllideb hyblyg allgymorth cymunedol ar gyfer eu hardal er mwyn chwalu rhwystrau rhag cymryd rhan yn y prosiect a darparu adnoddau i bartneriaid cymunedol lleol.

33. Gweithio o fewn cyllideb y prosiect a gwario arian yn gyfrifol.

34. Defnyddio dulliau cyfranogol er mwyn cynnwys amrywiaeth eang o bobl yn y prosiect. Mae hyn yn cynnwys menywod a genethod; pobl sy'n destun anghydraddoldeb cymdeithasol-econoamidd; pobl o grwpiau du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; a menywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol.

35. Cefnogi datblygiad arddangosfeydd prosiectau lleol, gan sicrhau deilliannau dysgu priodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

36. Cynnal yr holl weithgareddau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r WCIA, gan gynrychioli'r WCIA a'r prosiect, ac adlewyrchu ein gwerthoedd craidd ym mhob rhan o'ch gwaith.

37. Cyflawni gwaith gweinyddol i gefnogi'r gweithgareddau uchod, gyda chymorth Swyddog Gweinyddiaeth a Chyllid y Prosiect.

38. Cyflawni dyletswyddau eraill o dro i dro, pan fo'r Rheolwr Prosiect yn eu dirprwyo.

## Manyleb person

### Hanfodol

- ✓ Profiad o waith prosiect cymunedol a gweithio gyda gwirfoddolwyr, a dawn naturiol am ysgogi a chefnogi pobl o ystod amrywiol o gefndiroedd.
- ✓ Wedi profi eich bod yn gallu datblygu partneriaethau gydag ystod o sefydliadau.
- ✓ Profiad o gynnal neu hwyluso digwyddiadau cymunedol neu sesiynau datblygu mewn modd cefnogol a chyfranogol.
- ✓ Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu ynghylch y prosiect gydag ystod eang o gynulleidfaoedd.
- ✓ Diddordeb yn themâu'r prosiect, a gwybodaeth ohonynt, a bod wedi'ch ysbrydoli gan y prosiect.
- ✓ Y gallu i weithio mewn modd cydweithredol a chynhyrchiol gydag aelodau'r tîm, gan rannu gwybodaeth yn agored a chefnogi cydweithwyr.
- ✓ Y gallu i ddilyn dull dysgu, er mwyn gwella'r gwaith ar y prosiect yn barhaus.
- ✓ Sgiliau meddwl creadigol a beirniadol, er mwyn datrys problemau, manteisio ar gyfleoedd a chyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y prosiect.
- ✓ Bod yn flaengar er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch tasgau dydd-i-ddydd - ar gyfer chi'ch hun a chyfranogwyr y prosiect.
- ✓ Profiad o reoli cyllidebau bychain.
- ✓ Sgiliau TG da, yn enwedig o ran meddalwedd Microsoft Office.
- ✓ Profiadau o ddigwyddiadau marchnata a defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol.
- ✓ Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer **o leiaf dau** o'r Swyddogion Allgymorth Cymunedol.

### Dymunol

- ✓ Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr yn y gymuned.

- ✓ Profiad o weithio ar brosiect treftadaeth.
- ✓ Ymwybyddiaeth o hanes Cymru a'r/neu'r mudiad heddwch yng Nghymru.